

ATODLEN 2

TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

RHAN 1

TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

PENNOD 1

CYMHWYSO

- 1 (1) Mae'r telerau ymhlyg a nodir ym Mhennod 2 yn gymwys i bob cytundeb ac eithrio cytundeb sy'n ymwneud â llain ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.
- (2) Mae'r telerau ymhlyg a nodir ym Mhennod 3 yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dramwy ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.
- (3) Mae'r telerau ymhlyg a nodir ym Mhennod 4 yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain barhaol ar safle Sipsiwn a Theithwyr awdurdod lleol.
- (4) Yn y Rhan hon—

ystyr “datganiad ysgrifenedig” (“*written statement*”) yw'r datganiad ysgrifenedig y mae'n ofynnol i berchennog y safle gwarchodedig ei roi i feddiannydd y cartref symudol gan adran 49(1);

ystyr “dyddiad yr adolygiad” (“*review date*”), mewn perthynas â chytundeb, yw'r dyddiad a bennir yn y datganiad ysgrifenedig fel y dyddiad y caiff y ffi am y llain ei hadolygu bob blwyddyn, neu os nad oes dyddiad o'r fath wedi ei bennu, pen blwydd dyddiad cychwyn y cytundeb;

ystyr “mynegai prisiau defnyddwyr” (“*consumer price index*”) yw'r mynegai cyffredinol o eitemau defnyddwyr (o bob eitem) a gyhoeddir gan y Bwrdd Ystadegau neu, os na chyhoeddir y mynegai hwnnw am fis perthnasol, unrhyw fynegai neu ffigurau o fynegai amgen a gyhoeddir gan y Bwrdd.